Academi Adra

Cefnogi Pobl Leol gyda Hyfforddiant, Profiad Gwaith a Chyfleoedd Cyflogaeth

Beth ydi Academi Adra?

Mae Academi Adra yn fenter cyflogaeth a sgiliau a sefydlwyd gan gymdeithas dai Adra, sy'n cefnogi pobl leol i ennill sgiliau newydd a dod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth. Ein nod yw pontio'r bwlch rhwng busnesau lleol a phŵl o unigolion sy'n barod i symud mewn i waith. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu busnesau fel eich un chi i dyfu, tra hefyd yn grymuso unigolion i adeiladu gyrfaoedd hirdymor.

Pwy 'da ni'n gefnogi?

Rydym yn targedu ein cefnogaeth tuag at unigolion o oedran gwaith yng Ngwynedd, sydd ddim mewn cyflogaeth, addysg nac hyfforddiant. Er ein bod yn blaenoriaethu cyfleoedd i denantiaid Adra, a thenantiaid darparwyr tai cymdeithasol eraill, gall unrhyw un gymryd rhan. Rydym yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau lleol sy'n cyfeirio unigolion draw, fel:

- Gwaith Gwynedd
- Canolfan Byd Gwaith
- Maximus (Cynllun Restart)
- GISDA
- Gyrfa Cymru
- Grŵp Cynefin
- ClwydAlyn
- Tai Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd

Rydym hefyd yn cefnogi unigolion sy'n hunangyfeirio ac sy'n chwilio i newid gyrfa neu eisiau cymorth cael mynediad at waith.

Cysylltwch â ni

0300 123 8084

E-bost:
academi@adra.co.uk

Gwefan: Academi Adra
www.adra.co.uk/swyddi/cymorth-i-ddatblygu-eich-sgiliau/

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol am y diweddaraf a straeon llwyddiant:

Adra

@adrataicyf

Adra and **Tŷ Gwyrddfai**

Sut mae'n gweithio i'r dysgwyr?

Gyda Academi Adra, bydd gennych fynediad at gronfa o unigolion sydd wedi eu huwchsgilio a sy'n barod i symud i gyflogaeth. Mae ein rhaglenni yn rhedeg am ddwy wythnos ar y tro yn ein prif swyddfa ym Mharc Menai, Bangor.

Mae ein dysgwyr yn derbyn wythnos o hyfforddiant sgiliau Gweinyddol a Gwasanaeth Cwsmer gan ddarparwyr hyfforddiant a phartneriaid, e.e. Busnes@Llandrillo Menai a Gwaith Gwynedd. Yn ystod yr wythnos, mae'r dysgwyr yn derbyn yr hyfforddiant canlynol i'w helpu i baratoi am wneud cais am rôl mewn swyddfa:

Wythnos 1 – **Hyfforddiant**

Diwrnod 1 - Cyflwyniad i Wasanaeth Cwsmeriaid: Mae'r modiwl yma yn edrych ar bwysigrwydd argraff cyntaf, deall anghenion cwsmeriaid a chyfathrebu effeithiol.

Diwrnod 2 - Cyflwyniad i Weinyddiaeth Busnes - Mae'r modiwl hwn yn edrych ar dermau gweinyddol sylfaenol, gwaith tîm a chydweithio, proffesiynoldeb, diwylliant swyddfa a rheoli amser.

Diwrnod 3 - Gweithdy Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol - Mae'r modiwl yma yn edrych ar bwrpas cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd a sut i greu agenda ayyb.

Diwrnod 4 - Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith & Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogwyr a Chyflogeion - Mae'r modiwlau yma yn edrych ar sut i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch yn y gweithle a'r cyfrifoldebau sydd ar gyflogwyr a chyflogeion.

Diwrnod 5 - Gweithdy CV a Sgiliau Cyflogadwyedd - Gyda'n partneriaid yn Gwaith Gwynedd, mae'r sesiwn yma yn edrych ar sut i ysgrifennu CV, llenwi ffurflen gais a sgiliau cyfweld.

Wythnos 2 – **Profiad Gwaith**

Rydym yn paru'r dysgwyr gyda'n Tîm Cwsmeriaid a Chymunedau neu bartneriaid allanol am wythnos o brofiad gwaith di-dâl, lle byddant yn cael y cyfle i ddefnyddio'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu yn ystod eu hwythnos o hyfforddiant.

Rydym hefyd yn eu cefnogi gydag unrhyw beth a allai ei gwneud hi'n anodd iddynt gwblhau eu profiad gwaith e.e. costau cludiant neu ofal plant.



Sut mae'n gweithio i chi?

Cam 1: Partneru hefo ni

Cysylltwch ag Academi Adra drwy glicio yma neu anfon e-bost at academi@adra.co.uk a byddwn yn cysylltu hefo chi i drafod eich anghenion gweithlu. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall y rolau rydych chi'n chwilio amdanynt, y sgiliau sydd eu hangen, a byddwn yn eich cofrestru ar ein cronfa ddata.

Cam 2: Mynediad at unigolion sydd wedi eu huwchsgilio

Ar ôl cofrestru, byddwn yn cysylltu hefo chi ac yn eich paru hefo unigolion sy'n byw'n lleol ac sydd wedi cwblhau ein rhaglen hyfforddi. Byddwch yn cael y cyfle i gynnig wythnos o brofiad gwaith di-dâl, lle byddwch yn cael y cyfle i ddod i adnabod yr unigolyn. Os ydych chi'n awyddus i gadw'r unigolyn ymlaen, gallwn dalu eu cyflog am y 16 wythnos gyntaf (24 awr yr wythnos ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol). Byddwn hefyd yn cynnig cymorth ariannol wedi'i deilwra iddynt yn ystod eu hamser gyda chi sy'n cynnwys help gyda chludiant, gofal plant a chostau hyfforddi ychwanegol. Yn ystod y lleoliad, byddwch chi a'r unigolyn yn derbyn cyfarfodydd wythnosol a chyfarfodydd 1:1 misol gyda mentor Academi Adra.

Cam 3: Cymorth Parhaus

Os ydych chi'n awyddus i gadw'r unigolyn ymlaen ar ôl yr 16 wythnos gyntaf, byddwn yn gweithio hefo chi a'n partneriaid i sicrhau eu bod nhw'n derbyn yr holl gymorth sydd ei angen arnyn nhw i gynnal eu cyflogaeth gyda chi neu symud 'mlaen i brentisiaeth. Dyma rai dolenni defnyddiol os ydych chi'n chwilio am gymorth ychwanegol i'ch ymgeiswyr newydd a/neu eich prentisiaid:

- **Jobs Growth Wales+**
  copatraining.co.uk/wp-content/uploads/2023/08/Employer-Guide-English.pdf
- **Gwaith Gwynedd**
  Cefnogaeth cyflogaeth i drigolion Gwynedd
  www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Swyddi-a-Gyrfaoedd/Cefnogaeth-i-Waith/Gwaith-Gwynedd
- **Canolbwynt Cyflogaeth Conwy**
  Cefnogaeth cyflogaeth i drigolion sir Conwy
  www.conwy.gov.uk/cy/Council/Jobs-and-Careers/Help-Getting-Into-Work/conwy-employment-hub.aspx
- **Môn CF**
  Cefnogaeth cyflogaeth i drigolion Ynys Mon
  www.moncf.co.uk/
- **Cymunedau am Waith + Wrecsam**
  Cefnogaeth cyflogaeth i drigolion Wrecsam
  www.wrecsam.gov.uk/service/cymunedau-am-waith-wrecsam
- **Academi Cyfleon**
  Gisda Ltd
  www.gisda.org/cy/prosiectau/academi-cyfleon
- **Gyrfa Cymru**
  gyrfacymru.llyw.cymru/cyrsiau-a-hyfforddiant/cyllido-eich-astudiaethau/cyfrifon-dysgu-personol
- **Cymru'n Gweithio**
  cymrungweithio.llyw.cymru/sut-y-gallwn-ni-helpu/react-plws

Straeon Llwyddiant Academi Adra

Stori Daniella

Mae Daniella, sy'n 33 oed, yn denant i Adra ac fe'i cyfeiriwyd at Academi Adra gan y Ganolfan Byd Gwaith. Fel mam i 3 o blant ifanc, roedd hi'n edrych i wella ei sgiliau mewn Gwasanaeth Cwsmer a Gweinyddiaeth, i'w helpu i wneud cais am fwy o swyddi yn y sector hwnnw. Cymerodd Daniella ran yn ein cwrs Gwasanaeth Cwsmer a Gweinyddiaeth a buodd yn llwyddiannus a chael un o'n lleoliadau gwaith hefo tal 16 wythnos. Dechreuodd ei lleoliad yn ein canolfan datgarboneiddio, Tŷ Gwyrddfai, lle cafodd gyfle i weithio ar y dderbynfa, helpu i drefnu digwyddiadau a nifer o dasgau gweinyddol eraill. Mae Daniella bellach wedi cael contract parhaol gyda thîm Tŷ Gwyrddfai ac mae'n mwynhau pob eiliad."

Stori Cai

Cymerodd Cai, sy'n un o'n tenantiaid, ran yn ein cwrs Gwasanaeth Cwsmer cyntaf yn ôl yn Ionawr 2023. Dywedodd Cai, "Cyn i mi ymgeisio am y cwrs, roeddwn i'n gweithio'n rhan amser mewn gwesty. Gwelais y cwrs ar wefan Adra a phenderfynais ymgeisio oherwydd roeddwn i'n chwilio am waith llawn amser. Mae'r profiad wedi cael effaith gadarnhaol ar fy mywyd gan fy mod i wedi dysgu gymaint o sgiliau newydd ac wedi cael profiad o weithio mewn amgylchedd swyddfa. Cynyddodd fy hyder ac rwyf yn berson hapusach ers dechrau fy swydd yn y ganolfan alwadau, oherwydd bod pawb wedi bod mor garedig a chefnogol - rwy'n teimlo fel pe bawn i'n rhan o deulu. Nes i drio yn ddiweddar am rôl Hyfforddai Tai gyda Adra, a derbyniais y swydd, felly rwyf wrth fy modd i fod yn aros yma ac yn dechrau gyrfa newydd yn y sector tai."

Stori Delyth

Buodd i Delyth, sydd hefyd yn denant i Adra, gymryd rhan yn ein cwrs Gwasanaeth Cwsmer cyntaf ym mis Ionawr 2023 a dyma be ddywedodd hi: "Collais fy ngwaith bythefnos cyn y Nadolig yn 2022, felly edrychais ar wefan Adra am swyddi a darganfyddais y cwrs Gwasanaeth Cwsmer - felly es i amdani! Nes i fwynhau'n fawr - dysgais gymaint â chwrdd â llawer o bobl newydd. Mae cymryd rhan hefo Academi Adra wedi rhoi mwy o hyder i mi a wir wedi bod yn agoriad llygaid. Ar ôl y cwrs, cefais gyfweliad a chynnig swydd yn y ganolfan gyswllt. Rwy'n falch iawn o ddweud bod fy nghytundeb wedi cael ei ymestyn ac rwy'n gallu parhau i ddysgu hefo Adra a bod yno i helpu pobl."

Stori Chloe

Cymerodd Chloe, oedd yn 19 mlwydd oed ar y pryd, ran yn ein cwrs Gwasanaeth Cwsmer a dyma ddywedodd hi: "Byswn yn sicr yn mynd am gwrs Academi Adra. Mae'n ffordd wych i ddod i mewn i fusnes mor fawr fel Adra, ac mae'n brofiad gwych. Cefais wythnos o hyfforddiant ym Mharc Menai, gan ddysgu ychydig o sgiliau angenrheidiol a deal beth oedd gwasanaeth Cwsmer, ac ar ddiwedd yr wythnos ges i gyfweliad i gael swydd. Mae wedi rhoi hyder i mi; dwi'n gwybod be i'w ddweud wrth gwsmeriaid rŵan ac egluro be dwi isho ddweud."